

HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 2 Mai 2025
Tabled on 2 May 2025

Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) Legislation (Procedure, Publication and Repeals) (Wales) Bill

Paul Davies

6

Page 28, after line 29, insert a new section –

[] **Post-legislative scrutiny**

After section 42 of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4), insert –

“42A Review of Parts 2A and 2B of this Act

- (1) The Counsel General must review the operation and effect of Parts 2A and 2B.
- (2) The review must be carried out during the period –
 - (a) beginning two years after the day on which those Parts come into force, and
 - (b) ending no later than three years after that day.
- (3) As part of the review the Counsel General must consult the Presiding Officer and the Clerk of the Senedd, and any other person the Counsel General considers appropriate.
- (4) The next annual report prepared by the Counsel General under section 2(7) after the review has been completed must contain –
 - (a) information about the matters considered as part of the review, and
 - (b) the Counsel General’s conclusions.”.

This amendment to the Bill will in turn amend Part 4 of the Legislation (Wales) Act 2019 to require the Counsel General to undertake a review of the first two years of operation of new Parts 2A and 2B and lay a report on the findings before the Senedd. As part of the review there should be consultation with the Llywydd, the Clerk of Senedd Cymru and other persons with an interest.

Tudalen 28, ar ôl llinell 31, mewnosoder adran newydd –

[] Craffu ar ôl deddfu

Ar ôl adran 42 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), mewnosoder –

“42A Adolygu Rhannau 2A a 2B o’r Ddeddf hon

- (1) Rhaid i’r Cwnsler Cyffredinol adolygu gweithrediad ac effaith Rhannau 2A a 2B.
- (2) Rhaid i’r adolygiad gael ei gynnal yn ystod y cyfnod –
 - (a) sy’n dechrau ddwy flynedd ar ôl y diwrnod y daw’r Rhannau hynny i rym, a
 - (b) sy’n dod i ben heb fod yn hwyrach na thair blynedd ar ôl y diwrnod hwnnw.
- (3) Fel rhan o’r adolygiad, rhaid i’r Cwnsler Cyffredinol ymgynghori â’r Llywydd a Chlerc y Senedd, ac unrhyw berson arall y mae’r Cwnsler Cyffredinol yn ei ystyried yn briodol.
- (4) Rhaid i’r adroddiad blynyddol nesaf a lunnir gan y Cwnsler Cyffredinol o dan adran 2(7) ar ôl i’r adolygiad gael ei gwblhau gynnwys –
 - (a) gwybodaeth am y materion a ystyriwyd fel rhan o’r adolygiad, a
 - (b) casgliadau’r Cwnsler Cyffredinol.”.

Bydd y gwelliant hwn, yn ei dro, yn diwygio Rhan 4 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 i’w gwneud yn ofynnol i’r Cwnsler Cyffredinol gynnal adolygiad o ddwy flynedd gyntaf gweithrediad Rhannau newydd 2A a 2B a gosod adroddiad ar y canfyddiadau gerbron y Senedd. Fel rhan o’r adolygiad, rhaid iddo ymgynghori â’r Llywydd, Clerc Senedd Cymru a phersonau eraill sydd â diddordeb.

Adam Price

7

Page 28, after line 29, insert a new section –

[] Activities to improve accessibility of Welsh law

After paragraph (d) of section 2(3) of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4), insert –

“(e) resolve any ambiguities, and correct any errors, in Welsh law.”.

Tudalen 28, ar ôl llinell 31, mewnosoder adran newydd –

[] Gweithgareddau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru

Ar ôl paragraff (d) o adran 2(3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), mewnosoder –

“(e) datrys unrhyw amwysedd, a chywiro unrhyw wallau, yng nghyfraith Cymru.”.

